# Mesuriadau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru: Newidiadau a chymaroldeb

## Cefndir:

Mae'r erthygl ystadegol hon yn rhoi gwybodaeth am y newidiadau i'r ffordd yr ydym yn mesur perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (CA4) yng Nghymru sy'n deillio o'r Adolygiad o Gymwysterau yn 2011. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gymaroldeb mesuriadau perfformiad dros amser yng Nghymru, yn enwedig gan y bydd rhai o'r newidiadau hyn yn arwain at newidiadau mewn ymddygiad ymysg ysgolion a disgyblion. Bydd yr erthygl hefyd yn edrych ar gymariaethau â Lloegr a gweddill y Deyrnas Unedig, yn enwedig yng ngoleuni Adolygiad Wolf o Addysg Alwedigaethol yn Lloegr.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o Gymwysterau yn 2011, gyda'r nod o ganfod pa gymwysterau sy'n fwyaf perthnasol ac sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi mwyaf ac i sicrhau bod y rhain ar gael i ddysgwyr. Ystyriodd hefyd faterion yn ymwneud â mesur perfformiad.

Yn ogystal â'r newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad, hoffem hefyd gael sylwadau ar ddau gynnig, sef hepgor ysgolion annibynnol wrth gyfrifo cyfansymiau Cymru, a chynnwys disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) nad oeddent yn mynychu uned cyfeirio disgyblion. Mae'r cynnig i hepgor ysgolion annibynnol oherwydd y ffaith fod ein mesuriadau perfformiad yn llai a llai berthnasol, a gallent roi darlun gamarweiniol o berfformiad ar lefel cenedlaethol. Gellir gweld mwy o wybodaeth am hyn yn adran 2.2.


## Prif Bwyntiau:

- haf 2016, mae mesurau perfformiad CA4 yng Nghymru yn newid yn dilyn yr argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad o Gymwysterau yng Nghymru.
- Yn y tymor byr bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ein gallu i gymraru perfformiad dros gyfnod o amser. Er enghraifft, gall hyn arwain at newidiadau ymddygiad yn y disgyblion ac ysgolion o ran cymwysterau a ddewiswyd, na ellir eu modelu.
- Bu adolygiad tebyg yn Lloegr (a elwir yr Adolygiad Wolf). Rhwng hyn ac ein hadolygiad, erbyn hyn mae nifer o wahaniaethau allweddol rhwng mesurau perfformiad CA4 yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu ni ellir cymharu perfformiad yn y ffordd draddodiadol gan ddefnyddio dangosyddion megis y L2 cynhwysol. Rydym yn argymell i chi ddefnyddio'r astudiaethau rhyngwladol megis yr arolwg OECD PISA ar gyfer data cymharol ar draws gwledydd y DU.
- Ar gyfer cymhariaeth fwy manwl rhwng gwledydd y DU ar lefel pwnc unigol, mae'n bosib ddefnyddio data o'r Cyd-gyngor Cymwysterau. Maent yn cyhoeddi data blynyddol ar ddiwrnod canlyniadau TGAU sy'n rhoi canlyniadau TGAU yn ôl pwnc a gradd, ar gyfer pob gwlad ar wahân. Nid yw set o data hyn yn cael ei effeithio gan nifer o'r newidiadau sy'n codi o'r Adolygiad o Gymwysterau. Fodd bynnag, mae yna nifer o gyfyngiadau ar y data hwn, yn enwedig o amgylch gwahanol batrymau mynediad cynnar yng Nghymru a Lloegr, sy'n golygu y gall cymariaethau fod yn gamarweiniol. Dylai defnyddwyr sy'n dymuno dadansoddi'r set ddata hon i ddibenion cymharu wneud hynny yn ofalus iawn.

## 1. Newidiadau hanesyddol i fesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru:

Mae'r llinell amser ganlynol yn dangos y newidiadau i fesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru o 1991/92 i 2013/14. Gellir gweld mwy o fanylion am bob un o'r newidiadau isod.

### 1.1. Llinell amser o newidiadau hanesyddol i fesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru




**1.** Cyfrifwyd mesuriadau perfformiad ysgolion ar gyfer Cymru am y tro cyntaf yn 1992. Y prif fesuriadau oedd cael 5 TGAU â graddau A*-C neu uwch a'r Dangosydd Pynciau Craidd. Roedd y mesuriad hwn wedi'i seilio ar ganlyniadau TGAU yn unig.

**2.** Yn 1995/96 estynnwyd diffiniad y mesuriadau perfformiad ysgolion i gynnwys GNVQ ac NVQ.

**3.** Yn 2003/04, cyflwynwyd y sgôr pwyntiau cyfartalog eang fel un o'r prif ddangosyddion ar gyfer disgyblion 15 oed, lle mae'n dal i gael ei ddefnyddio fel un o'r mesuriadau perfformiad ar gyfer CA4.

**Prif fesuriadau perfformiad CA4 cyfredol:**

- **Lefel 2 cynwysedig** – nifer o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gyfwerth â'r nifer o 5 TGAU â gradd A*-C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg
- **Sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio –** a gyfrifir gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau i bob disgybl
- **Dangosydd Pynciau Craidd** – cafodd TGAU gradd A*-C ym mhob un o Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

**4.** Cafodd dyfarniadau dwbl galwedigaethol TGAU eu dyfarnu am y tro cyntaf yn 2003/04. Cyfrifir pob dyfarniad dwbl fel 2 gofnod yn hytrach nag un.

**5.** Yn 2006/07, cyflwynwyd y trothwy Lefel 2 cynwysedig fel un o'r prif ddangosyddion ar gyfer disgyblion 15 oed. Diffinnir hwn fel y nifer o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gyfwerth â'r nifer o 5 TGAU â gradd A*-C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg. Mae hwn yn dal i fod yn un o'r mesuriadau perfformiad cyfredol ar gyfer CA4.

**6.** Hyd at 2005/06, roedd yr ystadegau mesuriad perfformiad CA4 yn cynnwys TGAU, TGAU cwrs byr, GNVQ ac NVQ yn unig. O 2006/07 ymlaen, mae'r ystadegau'n cynnwys yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer defnydd cyn-16 neu 16-18 yng Nghymru. Mae cyflwyno'r diffiniad ehangach wedi golygu cynnwys ystod ehangach o gymwysterau ac felly cynnydd yn y prif ddangosyddion perfformiad.

**7.** Oherwydd yr amrywiaeth o wahanol gymwysterau a'r nifer gynyddol o gymwysterau mae disgyblion yn eu cymryd, cyflwynwyd sgôr pwyntiau wedi'i gapio yn 2009/10 i ddisgyblion 15 oed er mwyn cymharu cyflawniadau disgyblion yn y modd gorau. Cyfrifir sgôr pwyntiau wedi'i gapio fel yr 8 TGAU neu gymhwyster cyfwerth gorau. Mae mwy o wybodaeth ynghylch sut y cynhyrchir y sgôr pwyntiau wedi'i gapio i'w gweld yn y ddogfen dechnegol. Noder bod y ffordd y cyfrifir y sgôr pwyntiau wedi'i gapio'n newid o 2016/17 ymlaen – fe fydd y sgôr wedi selio ar 9 cymhwyster yn hytrach na 8 cymhwyster.

**8.** Yn dilyn un o'r argymhellion yn yr adolygiad, yn 2013/14, cyflwynwyd canran y disgyblion sy'n cael A*-C mewn Gwyddoniaeth, A*-C mewn Mathemateg ac A*-C mewn Saesneg/Cymraeg i'r prif ddangosyddion perfformiad er mwyn adrodd ar wahân ar gyrhaeddiad yn y pynciau craidd.

## 2. Yr Adolygiad o Gymwysterau a newidiadau ym mesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru yn y dyfodol

Lansiwyd yr Adolygiad o Gymwysterau i ddisgyblion 14 i 19 oed ym mis Medi 2011 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Jeff Cuthbert AC, i werthuso sut y gallai Llywodraeth Cymru wireddu'r weledigaeth o 'gymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru'.

Parodd yr adolygiad hyd fis Tachwedd 2012, pan gyhoeddodd Bwrdd y Prosiect ei adroddiad terfynol a'i argymhellion i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau. Ar 29 Ionawr 2013, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru'n derbyn yn fras holl argymhellion yr Adolygiad. Prif gasgliad yr Adolygiad oedd ei bod yn bryd datblygu system gymwysterau genedlaethol gadarn, unigryw ac o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, a chefnogi'r gwahaniaeth rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU os yw hynny o fudd i ddysgwyr yng Nghymru. Mae mesuriadau perfformiad CA4 wedi cael eu hadolygu i ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad o Gymwysterau yng Nghymru ac mae'r llinell amser ganlynol yn dangos y newidiadau hynny yn y dyfodol.

### 2.1. Llinell amser o newidiadau ym mesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru yn y dyfodol

1. Cyfwerthedd mwyaf, yn nhermau mesuriadau perfformiad, o 2 TGAU i unrhyw gymhwyster ar Lefel 1 neu 2

2. Defnyddio cohortau blwyddyn 11 fel sail ar gyfer adrodd, yn hytrach na dysgwyr sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn

**2015/16**

9. Defnyddio TGAU yn unig yn yr elfen gwyddoniaeth o'r dangosydd '9 wedi'i gapio' (ar ôl cyflwyno'r gyfres TGAU gwyddoniaeth newydd i'w haddysgu o Fedi 2016)

10. Mesuriadau Bagloriaeth Cymru i ddisodli'r mesuriadau trothwy presennol (Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 Cynwysedig)

**2017/18**

**2016/17**

3. Cyflwyno'r sgôr pwyntiau '9 wedi'i gapio' newydd â gofynion pwnc penodol.

4. Dyfarnu cymhwyster Bagloriaeth Cymru diwygiedig am y tro cyntaf

5. Ni chaiff y Dangosydd Pynciau Craidd ei gyhoeddi mwyach (ond bydd y data ar gael o hyd)

6. Terfyn o 40% ar gymwysterau heblaw TGAU yn y mesuriadau trothwy

7. Defnyddio TGAU newydd mewn Saesneg Iaith/Cymraeg Iaith a Mathemateg/Mathemateg – Rhifedd fel elfennau llythrennedd a rhifedd y mesuriad Lefel 2 Cynwysedig

8. Nid yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach yn denu unrhyw bwyntiau perfformiad (trothwy na sgôr pwyntiau wedi'i gapio) yn CA4

**1.** Y sgôr cyfwerthedd mwyaf ar gyfer unrhyw gymhwyster heblaw TGAU yn 14-16 oed fydd dwy TGAU. Bydd gwerth pwyntiau perfformiad y cymwysterau Lefel 1 neu 2 sy'n cyfrif fel cyfwerth â mwy na dwy TGAU ar hyn o bryd yn cael ei gapio ar gyfwerth â dwy TGAU. Bydd hyn yn effeithio ar fesuriadau trothwy Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynwysedig, y sgôr pwyntiau wedi'i gapio ac, o 2018 ymlaen, mesuriadau Bagloriaeth Cymru. Noder, yn Lloegr mae'r gwerth cyfwerthedd o unrhyw gymhwyster sydd ddim yn TGAU yn cael ei gyfyngu i un TGAU. Gweler adran 3.2 am fwy o wybodaeth.

**2.** O 2015/2016 ymlaen, bydd Cymru'n defnyddio disgyblion ym Mlwyddyn 11 i adrodd ar ystadegau perfformiad ysgolion CA4, yn hytrach na dysgwyr sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd cohort Blwyddyn 11 yn cael ei seilio ar nifer y disgyblion oedd wedi'u cofrestru ym Mlwyddyn 11 yn y cyfrifiad ysgolion bob mis Ionawr. Rydym yn newid hyn er mwyn sichrau fod y cohort adroddwyd ar gyfer CA4 yn cynnwys yr holl ddisgyblion sydd ar ddiwedd eu rhaglen astudio CA4. Noder bod canlyniadau CA4 ar gyfer ysgolion annibynnol wedi'u seilio o hyd ar ddisgyblion 15 oed, yn hytrach na disgyblion Blwyddyn 11, gan nad yw 'Grŵp Blwyddyn' wedi'i gofnodi ar gyfer y sector hwn.

Yn lloegr, cyhoeddwyd data ar sail disgyblion 15 oed hyd at 2004/2005. O hynny'n ymlaen, defnyddiwyd disgyblion ym Mlwyddyn 11 i adrodd ar ystadegau perfformiad ysgolion, gan gynnwys ysgolion annibynnol. Gweler tabl 1a yn y ddogfen yma.

**3.** Bydd sgôr pwyntiau wedi'i gapio newydd yn cael ei gyflwyno yn 2016/2017. Bydd hwn yn defnyddio'r fethodoleg sgorio bresennol, sy'n priodoli sgorau gwahanol ar gyfer pob gradd ac yn cymryd maint y cymhwyster i ystyriaeth. Ceir mwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r sgôr pwyntiau

wedi'i gapio presennol yn cael ei gynhyrchu yn y ddogfen dechnegol yma. Bydd nifer o wahaniaethau arwyddocaol rhwng y sgôr newydd a'r sgôr pwyntiau wedi'i gapio presennol:

- Bydd y sgôr wedi'i seilio ar naw cymhwyster yn hytrach nag wyth
- Pump o'r naw cymhwyster a ddefnyddir i gyfrifo'r sgôr fydd:
  - TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith (pa un bynnag yw un gorau'r dysgwr, ni fydd llenyddiaeth yn cyfrif)
  - TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg
  - Dau gymhwyster gwyddoniaeth gorau'r dysgwr (o 2018 ymlaen, ei ddwy TGAU gwyddoniaeth orau)
- Y pedwar cymhwyster arall fydd cymwysterau eraill gorau (gradd uchaf) y dysgwr. Gallai'r rhain fod yn TGAU, cymwysterau galwedigaethol neu'r Dystysgrif Her Sgiliau (craidd Bagloriaeth Cymru newydd).

**4.** Mae Bagloriaeth Cymru wedi cael ei hailgynllunio i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2015 ymlaen a bydd yn cael ei dyfarnu am y tro cyntaf yn 2016/17 (ond adroddir arni fel mesuriad perfformiad yn 2017/18). Cymhwyster cyfansawdd yw hwn sy'n cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau, sy'n asesu'r sgiliau mae eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer coleg, prifysgol, cyflogaeth a bywyd. Ynghyd â'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae dysgwyr hefyd yn cymryd amrywiaeth o TGAU, AU, lefel A a chymwysterau galwedigaethol sy'n briodol i'w hanghenion er mwyn cael y Fagloriaeth.

Caiff y Fagloriaeth ei dyfarnu ar dair lefel:

- Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru (lefel 1) i'w ddefnyddio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ôl-16

- Diploma Cenedlaethol Bagloriaeth Cymru (lefel 2) i'w ddefnyddio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ôl-16

- Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (lefel 3) i'w ddefnyddio ôl-16 yn unig

**5.** Ni fydd y Dangosydd Pynciau Craidd (nifer gyfwerth â TGAU gradd A*-C ym mhob un o Fathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf) yn cael ei gyhoeddi mwyach fel mesuriad perfformiad o 2016/17 ymlaen.

**6.** Bydd terfyn o 40 y cant ar gyfraniad cymwysterau heblaw TGAU i fesuriadau trothwy Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynwysedig. Ni fydd terfyn ar gyfraniad cymwysterau heblaw TGAU i'r sgôr pwyntiau wedi'i gapio newydd (er, fel y nodir uchod, mae rhai cymwysterau penodol yn ofynnol ymysg y naw).

**7.** Bydd TGAU newydd mewn Saesneg Iaith/Cymraeg Iaith a Mathemateg/Mathemateg – Rhifedd yn cael eu defnyddio fel elfennau llythrennedd a rhifedd y mesuriad Lefel 2 cynwysedig. Dim ond y cymwysterau diwygiedig newydd yma fydd yn cyfrif at ofynion pwnc benodol y mesur (ni fydd cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif mwyach).

**8.** Nid oes gan Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach werth cyfraniad mwyach ym mesuriadau Cyfnod Allweddol 4, a byddant yn cael eu cymeradwyo i'w cyflenwi ôl-16 yn unig.

**9.** Ar gyfer gwyddoniaeth o 2018, dim ond cymwysterau TGAU fydd yn cyfrif tuag at ofynion pwnc benodol y sgôr pwyntiau wedi'i gapio. Nid yw cymwysterau gwyddoniaeth heblaw TGAU yn cyfrif mwyach at elfennau gwyddoniaeth ond gallant gyfrif o hyd at 4 cymhwyster gorau arall dysgwr.

**10.** Bydd mesuriadau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2018 mewn perthynas â chyrraedd lefelau Sylfaen a Chenedlaethol Bagloriaeth Cymru newydd (Lefelau 1 a 2). Bydd y mesuriadau newydd hyn yn disodli'r mesuriadau trothwy Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 Cynwysedig presennol.

## 2.3. Newidiadau arfaethedig ychwanegol i fesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru

Yn ogystal â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r Adolygiad o Gymwysterau, rydym yn cynnig gwneud y ddau newid diffiniadol canlynol yn 2015/16. Os ydych eisiau cyflwyno sylwadau ar y naill gynnig neu'r llall, neu gael mwy o wybodaeth a chyngor, mae croeso ichi gysylltu â ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk erbyn **Awst 15 2016**.

### Ysgolion Annibynnol

Ar hyn o bryd mae mesuriadau perfformiad CA4 ar gyfer Cymru gyfan yn cynnwys yr holl ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol yng Nghymru. Rydym yn cynnig, gan ddechrau eleni (2015/16), na chaiff canlyniadau ar gyfer ysgolion annibynnol eu cynnwys yn y ffigurau ar gyfer Cymru. Ein prif reswm dros ddymuno gwneud y newid hwn yw sicrhau bod y ffigurau ar gyfer Cymru wedi'u seilio ar wybodaeth gadarn ac nid yw'n gamarweiniol. Dim ond ar gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i'w defnyddio mewn ysgolion mae data'n cael eu casglu. Gall ysgolion annibynnol ddewis cymwysterau eraill nad ydynt wedi'u cymeradwyo, megis iGCSEs, ac ni chaiff y rhain eu cynnwys yn ein ffigurau. Nid yw'r data sydd gennym ar gyfer ysgolion annibynnol mor gynhwysfawr â'r data ar gyfer ysgolion a gynhelir ac mae'n gamarweiniol i ddefnyddwyr pan ofynnir inni ddarparu'r data wrth ymateb i geisiadau.

Mae'r mesurau perfformiad yn dod yn fwyfwy rhagnodol, a bydd y gwahaniaeth hwn mewn cymwysterau yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd ysgolion annibynnol yn defnyddio gymwysterau nad ydynt yn cymeradwyo-yn y dyfodol, gan waethygu'r broblem.

Mae'r tabl isod yn dangos effaith hepgor ysgolion annibynnol o'r trothwy Lefel 2 cynwysedig ar gyfer disgyblion 15 oed ar gyfer y 3 flynedd ddiwethaf.

**Canran y disgyblion 15 oed a gyrhaeddodd y trothwy Lefel 2 cynwysedig 2012/13 -2014/15**

| Blwyddyn | Canran y disgyblion a gyrhaeddodd y trothwy Lefel 2 cynwysedig (gan gynnwys ysgolion annibynnol) | Canran y disgyblion a gyrhaeddodd y trothwy Lefel 2 cynwysedig (ac eithrio ysgolion annibynnol) | Gwahaniaeth (pwyntiau canran) |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | 52.7 | 52.4 | -0.4 |
| 2013/14 | 55.4 | 55.3 | -0.1 |
| 2014/15 | 57.9 | 58.1 | 0.2 |

### Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol

Yn y blynyddoedd blaenorol, roedd mesuriadau perfformiad ar gyfer Cymru wedi'u seilio ar yr holl ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol ac unedau cyfeirio disgyblion. Oherwydd diffyg data cadarn, nid ydym wedi cynnwys y disgyblion hynny oedd yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ond nad oeddent yn mynychu uned cyfeirio disgyblion. Erbyn hyn mae gennym y data cadarn angenrheidiol i gynnwys cyrhaeddiad y disgyblion hyn yn y data ar gyfer Cymru ac Awdurdodau Lleol. Ar hyn o bryd ni allwn fodelu effaith y newid hwn ond mae'n debygol o arwain at ostyngiad bach iawn yn y mesuriadau perfformiad allweddol ar gyfer Cymru.

## 3. Cymharu mesuriadau perfformiad CA4

### 3.1. Mesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru dros amser

Bydd yna lawer o newidiadau i'r ffordd yr ydym yn mesur perfformiad CA4 yng Nghymru yn sgil yr Adolygiad o Gymwysterau. Bydd hyn yn ei dro'n effeithio ar y ffordd y gellir tracio perfformiad dros amser yn y dyfodol. Dyma rai o'r prif rwystrau i fesur perfformiad mewn modd cyson dros amser:

- Newidiadau yn y dangosyddion.
  - Ni ellir cyfrifo'r sgôr pwyntiau wedi'i gapio newydd ar gyfer blynyddoedd blaenorol oherwydd nid oedd gofyniad am 2 gymhwyster Gwyddoniaeth na 2 gymhwyster Mathemateg yn y dangosyddion perfformiad blaenorol.
  - Ni ellir cyfrifo dangosydd Bagloriaeth Cymru ar gyfer blynyddoedd blaenorol oherwydd nid oedd yn bodoli.
  - Nid oedd y terfyn ar faint cymwysterau heblaw TGAU yn bodoli ar yr adeg yr oedd disgyblion yn gwneud eu dewisiadau o ran cwricwlwm.

- Newidiadau yn y cymwysterau.
  - Mae TGAU newydd mewn Rhifedd wedi cael ei chyflwyno, a bydd y myfyrwyr cyntaf yn cwblhau'r cymhwyster hwn yn 2016/17.
  - Mae manyleb TGAU Mathemateg bresennol wedi newid o ganlyniad i hyn, a bydd y myfyrwyr cyntaf yn cwblhau'r cymhwyster hwn yn haf 2016/17.
  - Mae manylebau newydd penodol i Gymru ar gyfer Cymraeg a Saesneg.

- Newidiadau mewn ymddygiad.
  - Ni allwn wahanu effaith y newidiadau yn ymddygiad ysgolion a disgyblion oherwydd newidiadau polisi megis yr Adolygiad o Gymwysterau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod y terfyn ar faint pob cymhwyster heblaw TGAU wedi achosi i ysgolion newid y cymysgedd o gymwysterau a gynigiwyd i'w disgyblion, yn fwy o blaid cymwysterau islaw'r terfyn yn hytrach nag uwch ei ben (gellir cymeradwyo cymwysterau uwchben y terfyn i'w defnyddio o hyd, ond bydd eu cyfraniad at y mesuriadau perfformiad wedi'i gyfyngu i gyfwerth â 2 TGAU). Mae'r ymateb hwn yn debygol o amrywio rhwng ysgolion.

### 3.2. Adolygiad Wolf o Addysg Alwedigaethol a chymariaethau â Lloegr

Yn draddodiadol yng Nghymru mae mwy o ddiddordeb wedi bod mewn cymariaethau â Lloegr nag â'r gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae'n bosibl bod hyn yn deillio o'r system addysg gyffredin oedd gennym hyd at ddatganoli a chreu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999.

Ystyriodd Adolygiad Wolf o Addysg Alwedigaethol yn Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 gan yr Athro Alison Wolf, sut y gallai'r Adran Addysg (DfE) wella addysg alwedigaethol ar gyfer myfyrwyr 14 i 19 oed yn Lloegr. Gwnaeth yr adolygiad hwn argymhellion manwl ynghylch sut i hybu symud ymlaen yn llwyddiannus i'r farchnad lafur ac i lwybrau addysg a hyfforddiant lefel uwch. Cyflwynodd hefyd argymhellion ymarferol i helpu i lywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau ariannol presennol. Cyhoeddodd llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hymateb ffurfio i adolygiad Wolf ar 12 Mai 2011.

Yn dilyn Adolygiad Wolf yn Lloegr a'r Adolygiad o Gymwysterau yma yng Nghymru, mae nifer o wahaniaethau allweddol rhwng mesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru a Lloegr, sef:

| Maes | Cymru | Lloegr | Blwyddyn yr effaith |
|---|---|---|---|
| Cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo | Mae'r holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo'n cael eu cynnwys yn y wybodaeth am berfformiad. | Nid yw'r holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo'n cael eu cynnwys yn y wybodaeth am berfformiad. Ceir rhestr o gymhwysterau sydd yn cyfri yn y tablau perfformiad CA4 yma | 2013/14 |
| Maint mwyaf cymwysterau heblaw TGAU ar gyfer mesuriadau perfformiad | 2 TGAU | 1 TGAU | 2013/14 |
| Ail-sefyll | Cymerir gradd orau disgybl mewn pwnc, faint bynnag o weithiau y rhoddwyd cynnig ar y pwnc | Dim ond y cynnig cyntaf sy'n cael ei gyfrif, gan gynnwys mewn achosion lle ceir gradd well wrth gynnig wedi hynny | 2013/14 |
| Diystyru | Diystyrir rhwng teuluoedd o gymwysterau. Nid yw cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn cael eu diystyru yn erbyn ei gilydd | Diystyrir ar draws yr holl fathau o gymwysterau. Lle mae disgybl wedi eistedd dau neu fwy o gymhwysterau gyda gorgyffwrdd yn y cwricwlwm, ceir credyd ond unwaith. | 2013/14 |
| Cymwysterau Lefel 3 | Gall lefel A ac lefel UA gyfrannu at fesuriadau perfformiad CA4 os yw disgyblion yn eu cael pan maent ym mlwyddyn 11 | Dim ond lefelau AU sy'n cyfrif. Ni chaiff lefelau A eu cyfrif. | 2013/14 |
| Mesuriadau perfformiad | Sgôr pwyntiau wedi'i gapio newydd, Bagloriaeth Cymru (sy'n wahanol iawn i Fagloriaeth Lloegr) | Cynnydd 8, Cyrhaeddiad 8, cyrchfannau disgyblion, Sylfaen yn Saesneg a Mathemateg, Bagloriaeth Lloegr (sy'n wahanol iawn i Fagloriaeth Cymru)<br><br>Gweler yma am ragor o wybodaeth ar gyfer y Bagloriaeth Lloegr. | Lloegr: 2015/16<br>Cymru: 2016/17 |
| Manylebau cymwysterau | Datblygodd ei manylebau ei hun mewn Mathemateg a Saesneg, a dim ond y rhain fydd yn cael eu cyfrif mewn mesuriadau perfformiad ysgolion. Dwy TGAU ar wahân mewn Mathemateg. Manylebau penodol i Gymru ar gyfer pynciau craidd eraill i fod ar gael dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. | Un TGAU mewn mathemateg. Ymhellach, bydd TGAU diwygiedig yn cael eu cyflwyno yn 2018 a 2019. | 2016/17 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Graddau TGAU | Cadw’r strwythur A*-G (8 gradd) | Symud i’r strwythur 9-1 (9 gradd). | 2016/17 |

Mae’r tabl uchod yn dangos bod y mesuriadau perfformiad wedi dechrau ymwahanu’n sylweddol yn 2013/14, ac y bydd newidiadau yn y dyfodol o ganlyniad i’r ddau adolygiad yn cynyddu’r gwahaniaeth hwn. **Felly nid yw gwybodaeth am berfformiad ar gyfer Cymru a Lloegr yn gymaradwy o 2013/14 ymlaen.**

**Nid yw mesuriadau perfformiad CA4 wedi bod yn gymaradwy rhwng Cymru a Lloegr ers 2013/14.**



I gael mwy o wybodaeth am y newidiadau i fesuriadau perfformiad a chymwysterau yn Lloegr, ewch i : https://www.gov.uk/government/publications/school-and-college-performance-tables-documents-key-stage-4

## 3.3. Cymariaethau eraill yn y Deyrnas Unedig

### Gogledd Iwerddon

Mae tebygrwyddau rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon o ran strwythur a therminoleg addysgol a chwricwlaidd. At ei gilydd mae disgyblion yn sefyll arholiadau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) yn 15-16 oed ac arholiadau Lefel A yn 17-18 oed. Fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau allweddol rhwng mesurau perfformiad CA4 yng Ngogledd Iwerddon a Chymru. Mae rhain yn:

| Maes | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|
| Cymwysterau sydd wedi’u cymeradwyo | Mae’r holl gymwysterau sydd wedi’u cymeradwyo’n cael eu cynnwys yn y wybodaeth am berfformiad. | Mae’r holl gymwysterau sydd wedi’u cymeradwyo’n cael eu cynnwys yn y wybodaeth am berfformiad. |
| Maint mwyaf cymwysterau heblaw TGAU ar gyfer mesuriadau perfformiad | 2 TGAU | Dim maint mwyaf |
| Ail-sefyll | Cymerir gradd orau disgybl mewn pwnc, faint bynnag o weithiau y rhoddwyd cynnig ar y pwnc | Cymerir gradd orau disgybl mewn pwnc, faint bynnag o weithiau y rhoddwyd cynnig ar y pwnc |
| Diystyru | Diystyrir rhwng teuluoedd o gymwysterau. Nid yw cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn cael eu diystyru yn erbyn ei gilydd | Diystyrir rhwng teuluoedd o gymwysterau. Nid yw cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn cael eu diystyru yn erbyn ei gilydd |
| Cymwysterau Lefel 3 | Gall lefel A ac lefel UA gyfrannu at fesuriadau | Nid yw cymwysterau lefel 3 yn cyfrannu tuag at |

| | | |
|---|---|---|
| | perfformiad CA4 os yw disgyblion yn eu cael pan maent ym mlwyddyn 11 | mesuriadau perfformiad CA4. |
| Mesuriadau perfformiad | Sgôr pwyntiau wedi'i gapio newydd, Bagloriaeth Cymru (sy'n wahanol iawn i Fagloriaeth Lloegr) | Defnyddir y raddfa 16-58 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddangosfwrdd o fesurau a fydd yn cynnwys pedwar maes: cyrhaeddiad, cynnydd, cyd-destun ac ansawdd. Mae'r gwaith ar gam cynnar ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog |
| Manylebau cymwysterau | Datblygodd ei manylebau ei hun mewn Mathemateg a Saesneg, a dim ond y rhain fydd yn cael eu cyfrif mewn mesuriadau perfformiad ysgolion. Dwy TGAU ar wahân mewn Mathemateg. Manylebau penodol i Gymru ar gyfer pynciau craidd eraill i fod ar gael dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. | Bob manyleb TGAU yn cael eu cyfrif ac eithrio:<br>(I) manylebau Iaith Saesneg lle nad yw'r asesiad o siarad a gwrando yn cyfrannu at y radd gyffredinol; ac<br><br>(Ii) manylebau TGAU Gwyddoniaeth lle nad yw'r asesiad o waith ymarferol yn cyfrannu at y radd gyffredinol.<br><br>Cymwysterau Lefel 2 yn cael eu derbyn fel cyfwerth TGAU (yn seiliedig ar y Oriau Dysgu Dan Arweiniad ar gyfer y cymhwyster) ac eithrio TGAU Saesneg neu TGAU Mathemateg, lle nad oes cyfwerth yn cael eu derbyn. |
| Graddau TGAU | Cadw'r strwythur A*-G (8 gradd) | (i) Cadw'r strwythur A*-G (8 gradd) ar gyfer arholiadau TGAU CCEA ond yn cyflwyno gradd C* a newid y methodoleg o ddyfarnu gradd A*.<br>(ii) Caniatau i TGAU strwythyr 9-1 gael eu defnyddion yn ysgolion |

## Yr Alban

Mae gwahaniaethau mawr rhwng y system addysg yn yr Alban a'r system yng Nghymru. Mae gan yr Alban set wahanol o gymwysterau i weddill y Deyrnas Unedig ac **ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol**. Mae disgyblion yn cwblhau chwe blynedd o ysgol uwchradd o S1 i S6 (sy'n cyfateb i Flwyddyn 7 i Flwyddyn 12 yng Nghymru a Lloegr). Hyd at 2014, roedd disgyblion yn sefyll Graddau Safonol (Standard Grades) yn lle TGAU ac Uwch Dystysgrifau (Highers) yn lle lefelau A. **Nid yw**

**Graddau Safonol ar gael mwyach** ac maent wedi cael eu disodli gan y Cymwysterau Cenedlaethol (National Qualifications <http://www.sqa.org.uk/cfe>) newydd.

Mae disgyblion yn sefyll arholiadau Cymwysterau Cenedlaethol (National) 4/5 yn 15 oed, ac fel arfer yn cymryd pynciau sy'n cynnwys arholiadau gorfodol mewn Saesneg a Mathemateg. Roedd pwnc Gwyddonol (Ffiseg, Bioleg neu Gemeg) a phwnc Cymdeithasol (Daearyddiaeth, Hanes neu Astudiaethau Modern) yn arfer bod yn orfodol hefyd, ond mae hyn wedi newid yn unol â'r cwricwlwm newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y rhoddwyd y Cymwysterau Cenedlaethol ar waith a pha gymwysterau maent wedi'u disodli. Noder na fu'r Cymwysterau Cenedlaethol 4 a 5 yn cydredeg â'r Graddau Safonol.

| Cymwysterau newydd | Cymhwyster / Cymwysterau Blaenorol | Lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru | Blwyddyn yr arholiad cyntaf yn y cymwysterau newydd (cymwysterau a ddiddymwyd a'r dyddiad dod i ben) |
|---|---|---|---|
| Cenedlaethol 4 | Gradd Safonol (Gyffredinol)<br><br>Canolradd 1 | Lefel 1 | 2014<br><br>(Gradd Safonol, 2013; Canolradd 1, 2015) |
| Cenedlaethol 5 | Gradd Safonol (Credyd)<br><br>Canolradd 2 | Lefel 1 | 2014<br><br>(Gradd Safonol, 2013; Canolradd 2, 2015) |

I gael mwy o wybodaeth am fesur perfformiad ysgolion yn yr Alban, ewch i http://www.gov.scot/Topics/Statistics/Browse/School-Education/Pub-SS-ALM

**Cymariaethau yn y Deyrnas Unedig**

Mae'r gwahaniaeth mewn polisi o gwmpas mesurau perfformiad wedi golygu ei fod yn wedi dod yn amhosibl i gynhyrchu mesurau cymaradwy o'r systemau arholi ym mhob gwlad. Hyd yn oed pe bai'n bosibl cynhyrchu dangosyddion ymarferol a oedd ar sylfaen technegol mwy neu lai yn debyg, ni all y patrymau mynediad yr ysgolion a'r disgyblion ysgol cael eu cyfrif amdanynt. Rydym yn argymell bod astudiaethau rhyngwladol fel arolwg arolwg PISA yr OECD (gweler isod) yw'r dull allweddol yn y dyfodol ar gyfer data canlyniadau cymharol ar draws gwledydd y DU. Bydd data o'r asesiadau PISA 2015 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. (Gall lefelau cymwysterau cyffredinol o'r boblogaeth yn cael eu cymharu ar draws y DU gan ddefnyddio data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol Arolwg Poblogaeth Blynyddol).

## 3.4. Ffynonellau eraill data ar gymwysterau CA4

Mae'r Cydgyngor Cymwysterau yn sefydliad aelodaeth sy'n cynnwys y saith darparwr cymwysterau mwyaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n cyhoeddi set ddata flynyddol ar ddiwrnod canlyniadau TGAU sy'n rhoi canlyniadau TGAU fesul pwnc a gradd, ar gyfer pob un o'r tair gwlad ar wahân. Gellir defnyddio'r set ddata hon i gymharu cyrhaeddiad ar lefel pwnc rhwng y tair gwlad oherwydd nad yw llawer o'r problemau sy'n gysylltiedig â mesuriadau perfformiad yn berthnasol yma. Fodd bynnag, mae yna nifer o gyfyngiadau i'r set ddata hon:

- Mae'r set ddata wedi'i seilio ar y canlyniadau a geir yn arholiadau'r haf yn unig. Nid yw'n cynnwys data ar arholiadau mae disgyblion yn eu sefyll yn ifancach, nac unrhyw raddau newydd a roddir o ganlyniad i ail-farcio papurau.
- Mae'r data ar lefel pwnc ac ni ellir eu defnyddio i greu'r mesuriadau lefel disgybl mwy traddodiadol a ddefnyddir yn helaethach.
- Mae'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer myfyrwyr o unrhyw oedran, ac ni ellir eu dadgyfuno i grwpiau penodol o ddisgyblion e.e. disgyblion ar ddiwedd CA4.
- Mae'r canlyniadau'n cael eu cynnwys ar gyfer yr holl ganolfannau arholiadau cydnabyddedig, ac ni ellir eu dadgyfuno i ganolbwyntio ar ysgolion yn unig.
- Mae'n bosib fod patrymau eistedd yn wahanol rhwng yr haf a'r gaeaf.

I gael mwy o wybodaeth, gweler datganiad data'r llynedd ar:

http://www.jcq.org.uk/examination-results/gcses/2015/gcse-and-entry-level-certificate-results-summer-2015

### 3.4. Cymariaethau rhyngwladol

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn arolwg rhyngwladol teirblynyddol sydd â'r nod o arfarnu systemau addysg ar draws y byd trwy brofi sgiliau a gwybodaeth oddeutu hanner miliwn o fyfyrwyr 15 oed mewn mathemateg, darllen, gwyddoniaeth a datrys problemau. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sy'n rhedeg rhaglen PISA, yn cyhoeddi adroddiad yn dadansoddi perfformiad y gwahanol wledydd a gymerodd ran yn yr arolwg. Mae gwneuthurwyr polisi'n defnyddio canlyniadau PISA i fesur gwybodaeth a sgiliau myfyrwyr yn eu gwledydd eu hunain o gymharu â'r rheiny mewn gwledydd eraill, gosod targedau polisi yn erbyn nodau mesuradwy sydd wedi'u cyflawni gan systemau addysg eraill, a dysgu o'r polisïau a'r arferion a ddefnyddir mewn mannau eraill.

Argymhellwn ddefnyddio'r canlyniadau o'r arolwg hwn i wneud cymariaethau rhyngwladol o berfformiad ysgolion.

## 4. Nodiadau

### Manylion cyswllt

Rydym yn croesawu adborth oddi wrth ein defnyddwyr. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os ydych eisiau mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Stephen Hughes,
Ystadegau Addysg a Sgiliau,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5060
E-bost: ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk

## Nodiadau ar ddefnyddio erthyglau ystadegol

At ei gilydd, mae erthyglau ystadegol yn ymwneud â dadansoddiadau unigol nad oes bwriad i'w diweddaru, o leiaf yn y tymor byr, a'u diben yw darparu dadansoddiadau o'r fath i gynulleidfa ehangach nag a fyddai'n eu gweld fel arall. Cânt eu defnyddio'n bennaf i gyhoeddi dadansoddiadau sy'n archwiliol mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- Cyflwyno cyfres arbrofol newydd o ddata;
- Dadansoddiad rhannol o fater sy'n fan cychwyn defnyddiol ar gyfer ymchwil pellach ond sydd serch hynny yn ddadansoddiad defnyddiol ynddo'i hun;
- Tynnu sylw at ymchwil a wnaed gan sefydliadau eraill, naill ai wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru neu gan eraill, lle mae'n ddefnyddiol dangos y canlyniadau, neu adeiladu ymhellach ar yr ymchwil;
- Dadansoddiad lle nad yw'r canlyniadau efallai o ansawdd mor uchel â'r rhai yn ein datganiadau a'r bwletinau ystadegol arferol, ond lle gellir dod i gasgliadau ystyrlon o'r canlyniadau o hyd.

Lle mae ansawdd yn broblem, gall hyn ddigwydd mewn un neu ragor o'r ffyrdd canlynol:

- peidio â gallu nodi'n fanwl gywir yr amserlen a ddefnyddiwyd (fel y gall fod yn wir wrth ddefnyddio ffynhonnell weinyddol);
- ansawdd y ffynhonnell data neu'r data a ddefnyddiwyd; neu
- resymau penodedig eraill.

Fodd bynnag, bydd lefel yr ansawdd yn ddigon uchel fel nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar y casgliadau. Er enghraifft, mae'n bosibl nad yw'r union amserlen yn ganolog i'r casgliadau y gellir dod iddynt, neu mai maint y canlyniadau, yn hytrach na'r union ganlyniadau, sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa.

Nid Ystadegyn Cenedlaethol yw'r dadansoddiad a gyflwynir, ond gall fod wedi'i seilio ar allbynnau Ystadegau Cenedlaethol a bydd er hynny wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i wirio'n fanwl cyn cael ei gyhoeddi. Bydd asesiad o'r cryfderau a'r gwendidau yn y dadansoddiad yn cael ei gynnwys yn yr erthygl, er enghraifft cymariaethau â ffynonellau eraill, ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut y gellir defnyddio'r dadansoddiad, a disgrifiad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Mae erthyglau'n ddarostyngedig i'r trefniadau cyhoeddi ystadegau fel y'u diffinnir gan y protocol ar drefniadau cyhoeddi ystadegau, ac felly, er enghraifft, yn cael eu cyhoeddi ar ddyddiad a rag-gyhoeddir, yn yr un ffordd ag allbynnau ystadegau eraill. Mae'r symbolau gwerthoedd coll a ddefnyddir yn yr erthygl yn dilyn y safonau a ddefnyddir mewn allbynnau ystadegol eraill, fel y nodir isod:

| | |
|---|---|
| .. | Nid yw'r eitem data ar gael |
| . | Nid yw'r eitem data'n gymwys |
| - | Nid yw'r eitem data'n sero yn union, ond fe'i hamcangyfrifir fel sero neu lai na hanner y digid terfynol a ddangosir |
| * | Mae'r eitem data'n ddatgelol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi |

Cynhyrchwyd gan: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru
Adolygwyd ddiwethaf: Gorffennaf 2016

**Statws Ystadegau Gwladol**

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/